**Polisi Datblygu Economaidd Rhanbarthol**

**Cefndir**

1. Mae’r Aelodau wedi gofyn am bapur ar gyd-drefnu polisi datblygu economaidd rhanbarthol. Mae’r papur hwn yn tynnu sylw at bolisïau presennol a pholisïau sy’n cael eu cynllunio ar hyn o bryd, yn ymwneud â datblygu economaidd rhanbarthol. Gofynnir am farn yr Aelodau p’un a yw'r cysylltiadau sydd wedi’u nodi’n briodol ac a oes meysydd ychwanegol y gallai fod angen eu hystyried er mwyn ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol mewn modd mwy integredig.

**Materion**

2. Mae amrywiaeth eang o feysydd polisi yn ystyried yr effaith y maent yn ei chael rhwng rhanbarthau ac o fewn rhanbarthau yng Nghymru, ac yn arbennig yr effaith a gaiff gwahanol feysydd polisi o ran un ai leddfu neu atgyfnerthu anghydraddoldebau rhanbarthol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bolisïau Llywodraeth Cymru lle mae rhanbartholi, yng nghyswllt y tri rhanbarth sydd wedi’u nodi yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yn ffocws arbennig. Ymysg y meysydd polisi allweddol mae cynllunio, datblygu economaidd, trafnidiaeth, sgiliau a chyflogadwyedd, adfywio, tai ac eraill.

3. Mae datblygu economaidd yn parhau’n gymhwysedd sydd wedi’i ddatganoli, gyda llawer o ysgogiadau tymor canolig i hir yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried effaith ei pholisïau ar leoedd. Yng Nghymru mae hyn yn arwain at fuddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi drwy Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), er enghraifft y gronfa Strength in Places, a thrwy gynlluniau sector o dan Strategaeth Ddiwydiannol y DU, a fydd yn effeithio ar leoedd oherwydd lleoliad gwahanol glystyrau sector. Bydd buddsoddiadau seilwaith mawr gan Lywodraeth y DU, a chyfraniadau Llywodraeth y DU at fargeinion sector a bargeinion twf, hefyd yn dylanwadu ar ddatblygu economaidd rhanbarthol ar draws Cymru. Mae materion trawsffiniol hefyd o’r pwys mwyaf i ddatblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru, yn enwedig â Lloegr.

4. Mae angen rhagor o ddadansoddi, yn arbennig fel rhan o’r gwaith i roi sail gadarn i gynlluniau economaidd rhanbarthol o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, er mwyn deall yr anghydraddoldebau rhanbarthol penodol rhwng rhanbarthau ac ardaloedd lleol, ac oddi mewn iddynt, mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae yna heriau traws-Lywodraeth er sicrhau nad yw’r trefniadau llywodraethu yn arwain at gynnydd yn nifer y cyrff a bod cyfleoedd cysoni yn cael eu colli - yn cynnwys gweithredu’n unol â chynigion i ddiwygio llywodraeth leol.

5. Mae rhaglen o waith ar y gweill hefyd gyda’r OECD i gyfrannu at y gwaith hwn. Mae'n cynnwys sut y gallwn ni wella’r llywodraethu a’r monitro a’r gwerthuso rhanbarthol ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac ar ein dull newydd o fuddsoddi’n rhanbarthol. Bydd yr OECD yn ymweld â Chymru ddiwedd mis Mehefin ar daith astudio, a disgwylir y canfyddiadau cychwynnol erbyn diwedd yr haf.

**Meysydd a chynlluniau polisi allweddol**

6. Isod, tynnir sylw at rai meysydd polisi allweddol sy'n cynnig cyfle i integreiddio datblygu economaidd rhanbarthol ar draws Llywodraeth Cymru. Croesewir barn a sylwadau ar gyfleoedd i integreiddio polisi a chysoni dulliau cyflawni.

<u>Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Chynlluniau Economaidd Rhanbarthol</u>

7. Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau economaidd rhanbarthol o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn gallu darparu dadansoddiad wedi'i seilio a dystiolaeth o gryfderau rhanbarthol a chyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Bydd angen i gwmpas y gwaith hwn fod yn ehangach na'r bargeinion dinesig a'r bargeinion twf - er bod y bargeinion dinesig a thwf yn cynrychioli buddsoddiadau economaidd pwysig yn ein rhanbarthau, maen nhw'n gyfyngedig eu cwmpas, yn canolbwyntio'n bennaf ar rai buddsoddiadau cyfalaf allweddol. Bydd angen felly i'n cynlluniau economaidd rhanbarthol gydnabod rôl y bargeinion dinesig a thwf ym mhob rhanbarth, yn ogystal â chynlluniau gofodol eraill fel Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: cynllun cyflawni, Parthau Menter, a buddsoddiadau ehangach, er enghraifft mewn sgiliau, cyflogadwyedd neu adfywio.

8. Mae angen hefyd inni adlewyrchu'r cysylltiadau rhyngwladol a thrawsffiniol sy'n dal yn bwysig i lwyddiant ein heconomïau rhanbarthol. Yn arbennig, rydym eisoes yn gweithio gyda chyrff dros y ffin yn Lloegr i adlewyrchu realiti ein heconomïau a'n systemau trafnidiaeth gydgysylltiedig.

9. Gall y cynlluniau economaidd rhanbarthol ddarparu sylfaen ar gyfer blaenoriaethu nifer o fuddsoddiadau yn ein rhanbarthau yn y dyfodol, yn amrywio o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys yr hyn a ddaw yn lle cronfeydd rhanbarthol yr UE, i fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat ehangach. Drwy ddarparu fframwaith cydlynol ar gyfer buddsoddi yn ein heconomïau rhanbarthol, gallwn sicrhau swmp digonol o fuddsoddi mewn datblygu economaidd gan anelu tuag at amcanion a rennir, ac adeiladu ar gryfderau ac asedau neilltuol pob rhanbarth.

10. Mae angen gwaith pellach, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ym mhob rhanbarth, i ddatblygu'r cynlluniau hyn. Bydd angen i'r gwaith hwn grisialu'r ymrwymiadau a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar lefel ranbarthol, yn cynnwys sectorau thematig a'r economi sylfaenol, gwaith teg, y contract economaidd a'n galwadau ni i weithredu. Byddwn yn symud y gwaith hwn ymlaen gyda phartneriaid law yn llaw â'r gwaith datblygu i ddisodli cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi'r UE; a bydd y prosiect sydd ar waith gyda'r OECD yn dylanwadu ar y naill elfen a'r llall.

<u>Disodli cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi'r UE</u>

11. Nid ydym eto wedi cael unrhyw fanylion am sut y gallai Cronfa Ffyniant Gyffredinol arfaethedig i'r DU - a fwriedir gan Lywodraeth y DU i ddisodli cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi'r UE - weithredu, ar wahân i addewidion y bydd yn parchu'r setliadau datganoli yn llawn. Er gwaethaf yr addewidion hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cynnal digwyddiadau 'cyn-ymgynghori' yng Nghymru ac wedi cysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredinol arfaethedig; mae hynny'n gwbl groes i'r confensiynau sydd wedi ennill eu plwyf a'r setliad datganoli sy'n dweud na fyddai Llywodraeth y DU yn ymyrryd nac yn llunio polisi mewn meysydd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhanddeiliaid ar draws Cymru a Grŵp Hollbleidiol Seneddol i gyd yn cytuno bod yn rhaid i 'barchu datganoli' olygu dyraniad i Gymru nad yw geiniog yn llai na'r hyn y byddem wedi'i ddisgwyl pe baem wedi aros yn yr UE, ac mai Llywodraeth Cymru sy'n parhau i benderfynu ar ddyraniadau cyllid, blaenoriaethau a threfniadau gweithredu - fel y mae wedi'i wneud am bron i 20 mlynedd.

12. Er na chafwyd sicrwydd o hyn gan Lywodraeth y DU, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno bod angen i waith datblygu polisi symud y trefniadau olynu i ddisodli cronfeydd yr UE ymlaen. Rhaid gwneud hyn i sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r trefniadau ariannu newydd o fis Ionawr 2021, yr adeg pan fyddem yn disgwyl dechrau buddsoddi'r cronfeydd a fydd yn disodli rhai'r UE. Dylai'r cyllid hwn roi inni drefn fuddsoddi a fydd yn cynnal ein huchelgais, sydd wedi'i nodi yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi, i ddatblygu economi'r rhanbarthau mewn modd mwy cytbwys.

13. Cafodd Grŵp Llywio i Gymru ar Fuddsoddi Rhanbarthol ei sefydlu i roi cyngor i Weinidogion Cymru ar drefniadau olynu, gydag aelodau o blith ystod eang o wahanol randdeiliaid, yn cynnwys partneriaid rhanbarthol, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach, undebau llafur, AU/AB, Llywodraeth Leol a'r trydydd sector. Mae'r arweiniad pendant gan aelodau hyd yma wedi cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran trefniadau'r dyfodol er mwyn sicrhau:

- Ffocws cryfach ar ganlyniadau, a ddylai adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn uniongyrchol.
- Cyswllt agos â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan ddefnyddio'r un fframweithiau llywodraethu a chynllunio ag ar gyfer cynlluniau economaidd rhanbarthol.
- Angen parhaus am fuddsoddiadau cenedlaethol sy'n cefnogi datblygu economaidd rhanbarthol, wedi'i ategu gan fuddsoddiadau sy'n flaenoriaeth yn rhanbarthol ac yn lleol ac sy'n cael eu gyrru gan y rhanbarthau eu hunain.

14. Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno i sefydlu gweithgorau i wneud gwaith datblygu manwl ar y fframwaith buddsoddi dros yr haf, gan ddysgu gwersi o ddulliau buddsoddi hanesyddol yng Nghymru yn ogystal ag o brofiadau ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Caiff y gwaith hwn ei gynllunio a'i wneud law yn llaw â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau economaidd rhanbarthol o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

15. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gosod fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru a bydd yn disodli Cynllun Gofodol presennol Cymru; gan nodi sut y gall y system gynllunio gefnogi twf a seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol. Bydd yn ystyried cynllunio ar y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gefnogi datblygu, yn cynnwys gwneud hynny drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phennu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yn arbennig, bydd yn cefnogi strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol ac yn sicrhau bod modd eu gwireddu drwy'r system gynllunio. Dyma fydd yn gosod y cyd-destun ar gyfer buddsoddi rhanbarthol mewn seilwaith ac ar gyfer cynllunio a defnydd tir strategol.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

16. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cynhyrchu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, i ddadansoddi a dylanwadu ar y ddarpariaeth sgiliau yn unol ag angen economaidd y rhanbarth a'r cyfleoedd twf. Mae Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn dylanwadu ar fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn sgiliau, er enghraifft, Prentisiaethau, ac yn adeiladu ar y blaenoriaethau a nodir gan Barthau Menter, partneriaethau rhanbarthol a threfniadau cydweithredu trawsffiniol, ac yn eu cefnogi.

Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

17. Mae'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf, sy'n cyfuno arian gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyllid arall, yn darparu cyfres o fuddsoddiadau cyfalaf yn bennaf a fydd yn cyfrannu at ddatblygu economaidd rhanbarthol. Bydd angen i'r rhain gael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau economaidd rhanbarthol ac yn nhrefn buddsoddi rhanbarthol y dyfodol. Mae'r gwahanol fodelau ar draws Cymru a'r DU hefyd yn cynnig gwersi y bydd angen inni eu dysgu o ran cynllunio, buddsoddiadau a threfniadau llywodraethu cysylltiol.

Cyllid Adfywio

18. Mae'r Gronfa Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir yn buddsoddi £100m yn ystod 2018-2021 ar sail ranbarthol gyda'r nod o ehangu ffyniant drwy fuddsoddiadau integredig mewn economïau rhanbarthol. Cafodd cynlluniau adfywio eu datblygu ar sail ranbarthol er mwyn targedu'r buddsoddi. Mae'r model adfywio felly yn cynnig cyfle i ddysgu gwersi yn ymwneud â chynllunio rhanbarthol a blaenoriaethu cyllid wrth i'r drefn hon gael ei hehangu drwy'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Cydweithredu Trawsffiniol ar Drafnidiaeth

19. Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn allweddol i roi mynediad at swyddi, iechyd a gwasanaethau eraill ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae gofyn cyd-drefnu'r cynllunio a'r buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gan bartneriaid trawsffiniol er mwyn sicrhau safonau ansawdd cyson.

20. Nid yw'r cyfrifoldeb am seilwaith trenau yng Nghymru wedi'i ddatganoli ac mae yna wasanaethau trên pwysig sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae gennym goridorau ffyrdd strategol sy'n bwysig i'r economi ar y naill ochr a'r llall i'r ffin. Mae angen eu gwella mewn ffordd gydgysylltiedig os ydym i wneud y mwyaf o'r budd economaidd posibl a allai ddod yn eu sgil. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd yr angen i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU.

21. Mae perthynas waith drawsffiniol dda yn bodoli eisoes gydag awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol ond mae'n fwy aeddfed yn y gogledd nag yng nghanolbarth a de Cymru. Mae camau ar waith i gryfhau'r perthnasoedd trawsffiniol yn y rhanbarthau hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith dda hefyd â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac mae arwyddion fod pethau'n gwella yn yr Adran Drafnidiaeth o ran ei hawydd i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

<u>Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth</u>

22. Mae Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 eisoes yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth drwy Orchymyn. Gall y Gorchymyn ddarparu ar gyfer swyddogaethau'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, eu cyfansoddiad yn cynnwys yr aelodaeth, gweithdrefnau, hawliau pleidleisio, cyllid y Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth a'r staffio. Nid yw Deddf 2006 yn rhoi'r pwerau yn benodol i Weinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau neu gyfarwyddiadau i'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth ac nid yw'n rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru i ymyrryd pe bai Cyd-awdurdod yn methu. Mae'r Papur Gwyn, 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus', yn amlinellu'r bwriad i newid Deddf 2006 er mwyn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno canllawiau a chyfarwyddiadau ac i ymyrryd mewn perthynas â'r ffordd y mae'r Cyd-awdurdodau yn cyflawni'u swyddogaethau. Mae'r asesiad cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth.

23. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda llywodraeth leol ar fodel y Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth ac yn pendroni sut y gall weithio tra mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â diwygio ehangach ar lywodraeth leol a gweithio'n rhanbarthol. Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth ar sail ôl-troed rhanbarthol, a fyddai'n caniatáu i'r gwaith o gynllunio a chyflenwi trafnidiaeth gyhoeddus gael ei gysoni'n well.